**AMODAU ARBENNIG: GWE-LETYA**

Dylid defnyddio'r Amodau Arbennig hyn wrth gaffael gwasanaeth sy'n cael ei we-letya.

Dylid darllen yr Amodau Arbennig hyn ochr yn ochr â'r Amodau Cyffredinol a Gorchymyn y Contract, ac maent yn llywodraethu darpariaeth gwasanaethau gan Gontractwr i CNC.

1. **Y GWASANAETHAU**

1.1 Bydd y Contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau yn unol â Gorchymyn y Contract a'r Amserlen. Yn benodol, bydd y Contractwr yn cynllunio, yn datblygu ac, ar ôl cwblhau'r Profion yn llwyddiannus, yn darparu'r Gwasanaeth yn unol â Gorchymyn y Contract a fydd yn cynnwys, i osgoi unrhyw amheuaeth, gofynion mewn perthynas â lled band, defnyddio gweinyddion penodedig, argaeledd y Wefan a mynediad i drydydd partïon.

1.2 Bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Lefelau Gwasanaeth ar ôl cwblhau'r Profion yn llwyddiannus.

1.3 Gofalu bod y cysylltiadau cyfathrebu a nodir (neu'r cysylltiadau priodol os nad oes rhai wedi'u nodi) ar waith ac yn weithredol fel y gall CNC, ei gyflenwyr a'i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gwasanaeth yn ôl yr angen i fodloni gofynion CNC ar sail yr hyn y gellir yn rhesymol ei ragweld.

1.4 Bydd y Contractwr yn gwneud copïau wrth gefn dyddiol o leiaf o'r holl Feddalwedd, Data a deunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod copïau o'r fath yn cael eu cadw oddi ar y safle ac yn unol ag unrhyw gynllun parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb sydd ar waith gan CNC neu'r Contractwr. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod copïau o'r fath ar gael i CNC bob amser ar gais ac yn cael eu darparu i CNC o leiaf bob 3 mis neu ar gais CNC.

1.5 Efallai y bydd CNC yn monitro perfformiad Gwasanaethau'r Contractwr.

1.6 Bydd y Contractwr yn cydweithredu, ac yn mynnu bod unrhyw Is-gontractwyr yn cydweithredu, gyda CNC wrth gyflawni'r gwaith monitro y cyfeirir ato yn amod 1.5, heb godi tâl ychwanegol ar CNC.

2. **MYNEDIAD**

2.1 Bydd y Contractwr yn darparu mynediad at y Gwasanaeth fel sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod CNC neu ei gyflenwyr trydydd parti yn gallu mwynhau buddion y Gwasanaeth, a fydd o leiaf yn cynnwys:

2.1.1 diweddaru unrhyw neu'r holl Feddalwedd, Data a deunyddiau eraill a gedwir gan y Gwasanaeth gyda Deunyddiau a ddarperir o bryd i'w gilydd gan CNC;

2.1.2 cynnal a chefnogi'r Feddalwedd, y Data a deunyddiau eraill.

2.2 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd mynediad yn cynnwys mynediad o bell neu, yn ôl yr angen, mynediad corfforol at y gwasanaeth.

3. **DERBYN A PHROFI**

3.1 Ar ôl i'r Contractwr gwblhau'r gwaith o gynllunio a datblygu'r Gwasanaeth, bydd yn hysbysu CNC. Ar ôl derbyn yr hysbysiad, bydd gan CNC hawl i Brofi'r Gwasanaeth gwe-letya, er nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny. Os, ym marn resymol CNC, bydd y Gwasanaeth gwe-letya yn methu'r Profion, bydd CNC yn y lle cyntaf yn rhoi cyfle rhesymol i'r Contractwr gywiro unrhyw fethiannau a nodwyd. Yna gall ail-Brofi'r Gwasanaeth gwe-letya.

3.2 Os bydd y Gwasanaeth gwe-letya yn methu'r Prawf ar ddau achlysur neu fwy, neu os bydd y Contractwr yn methu â chywiro'r methiant a nodwyd yn unol ag amod 3.1 neu 3.2.2, gall CNC, yn ôl ei ddisgresiwn:

3.2.1 roi cyfleoedd pellach i'r Contractwr gywiro unrhyw fethiannau; neu

3.2.2 derfynu'r Contract yn syth.

3.3 Hyd yn oed os bydd y Contractwr yn cwblhau'r Profion yn llwyddiannus yn unol ag amod 3.1, mae CNC yn cadw'r hawl i Brofi'r Gwasanaethau ymhellach, a chontractio cyflenwyr trydydd parti i Brofi'r Gwasanaethau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brofion hacio a phrofion diogelwch eraill. Bydd y Contractwr yn cydweithredu gyda CNC neu unrhyw gyflenwyr trydydd parti mewn cysylltiad ag unrhyw Brofion o'r fath.

4. **ADRODDIADAU A DOGFENNAETH**

4.1 O ran y rhwymedigaeth i ddarparu'r Ddogfennaeth, bydd y contractwr yn darparu adroddiadau misol i CNC mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth. bydd adroddiadau o'r fath yn cynnwys:

4.1.1 Perfformiad yn erbyn pob Lefel Gwasanaeth unigol;

4.1.2 Nifer y materion a nodwyd (naill ai gan CNC neu gan y Contractwr), ynghyd â dosbarthiad y materion lle nodir hynny yng Ngorchymyn y Contract;

4.1.3 Nifer y materion a ddatryswyd;

4.1.4 Nifer y materion na chawsant eu datrys erbyn diwedd y mis;

4.1.5 Unrhyw wybodaeth arall yng Ngorchymyn y Contract.

4.2 Yn ogystal, bydd y Contractwr yn creu a chynnal cofnod o'r holl faterion a godwyd, ynghyd â manylion technegol ynglŷn â sut y cafodd materion o'r fath eu datrys. Bydd y cyfryw gofnod yn cael ei ddarparu i CNC ar gais a phan fydd y Contract yn dod i ben beth bynnag.

5. **LEFELAU GWASANAETH**

5.1 Yn ystod Cyfnod y Contract, bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau i fodloni neu ragori ar y Lefelau Gwasanaeth.

5.2 Os bydd y Contractwr yn methu â gwneud hyn, neu os yw'n credu y bydd yn methu un neu fwy o'r Lefelau Gwasanaeth, bydd y Contractwr yn hysbysu CNC ac yn mynd ati i gymryd camau adfer yn syth i sicrhau na fydd y methiant o ran Lefel Gwasanaeth yn digwydd eto yn y dyfodol.

5.3 I osgoi unrhyw amheuaeth, ni ystyrir bod y Contractwr wedi methu Lefel Gwasanaeth os yw'r methiant o ganlyniad llwyr i CNC yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

6. **HAWLIAU TERFYNU ARBENNIG**

6.1 Er gwaethaf unrhyw hawliau terfynu eraill a amlinellir yn y Contract hwn, gall CNC derfynu'r Cytundeb hwn trwy gyflwyno hysbysiad terfynu ysgrifenedig i'r Contractwr:

6.1.1 os yw'r Contractwr yn methu'r Lefelau Gwasanaeth mewn ffordd faterol. At ddibenion y ddarpariaeth hon, bydd materol yn golygu bod y methiant yn cael effaith faterol ar allu CNC i ddefnyddio'r Gwasanaethau neu gael

mynediad at Ddata'r Feddalwedd, deunyddiau eraill sy'n cael eu gwe-letya gan y Gwasanaethau neu eitemau eraill sy'n cael eu cefnogi a'u cynnal gan y Contractwr; neu

6.1.2 os yw'r Contractwr yn methu tair Lefel Gwasanaeth neu fwy dri mis yn olynol.

7. **DARPARU A GWEITHREDU**

7.1 Bydd y Contractwr yn darparu'r Feddalwedd erbyn y dyddiad ac yn y modd a nodir yng Ngorchymyn y Contract. Os bydd Gorchymyn y Contract yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Contractwr weithredu'r Feddalwedd, bydd y Contractwr yn gwneud hynny yn unol â'r Contract ac unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol y bydd CNC yn eu gwneud o bryd i'w gilydd.

8. **FERSIYNAU TRWSIO NAMAU**

Bydd y Contractwr yn cynnal cronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth am namau, cywiriadau, cyfyngiadau a dargyfeiriadau mewn perthynas â'r Feddalwedd ac yn caniatáu i CNC gael mynediad at gronfa ddata o'r fath heb godi tâl ychwanegol arno yn ystod cyfnod y drwydded.